COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR CRAFFU TESTUN 1 A GYNHALIWYD YN SIAMBR Y CYNGOR, SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PENYBONT AR OGWR CF31 4WB DYDD LLUN, 13 MAWRTH 2023, AM 11:00

Presennol

Y Cynghorydd A Williams – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| RJ Collins | M J Evans | H Griffiths | D T Harrison |
| M Jones | J Llewellyn-Hopkins | AJ Williams | E D Winstanley |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

E Richards a/ac T Thomas

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Lucy Beard | Swyddog Craffu |
| Nicola Echanis | Pennaeth Addysg a Chymorth Cynnar |
| Lindsay Harvey | Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Chymorth i Deuluoedd |
| Rachel Keepins | Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd |
| Meryl Lawrence | Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Craffu |
| Jessica Mclellan | Swyddog Craffu |
| Susan Roberts | Rheolwr Grŵp Gwella Ysgolion |

10. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Y Cynghorydd Johanna Llewellyn-Hopkins, Y Cynghorydd Ellie Richards a’r Cynghorydd Tim Thomas.

Cynrychiolydd Cofrestredig
Lyndsey Morris, Pennaeth Ysgol Iau Llangewydd

11. DATGANIADAU O FUDDIANNAU

Fe wnaeth y canlynol ddatgan buddiant personol:

Y Parch Ganon Edward Evans fel Llywodraethwr Cymunedol yn Ysgol Gyfun Bryntirion;
Y Cynghorydd Melanie Evans fel Llywodraethwr Cymunedol yn Ysgol Gyfun Pencoed ac Ysgol Gynradd Croesty;
Y Cynghorydd Richard Collins fel Llywodraethwr Cymunedol yn Ysgolion Cynradd y Santes Fair a Sant Padrig;
Y Cynghorydd Martyn Jones fel Cadeirydd Bwrdd Gweithredol Dros Dro Ysgol Gynradd Cwm Ogwr; a’r
Cynghorydd Alex Williams gan fod ei bartner yn athrawes mewn ysgol yn gweithredu peilot Cwricwlwm Cymru mewn awdurdod lleol arall.

12. ADRODDIAD CRAFFU AWDURDOD LLEOL BLYNYDDOL CONSORTIWM CANOLBARTH Y DE 2021-22

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol ar gyfer Addysg a Chymorth i Deuluoedd y Cynrychiolwyr o Gonsortiwm Canolbarth y De (CSC) a chyflwynodd Rheolwr Gyfarwyddwr CSC yr adroddiad, a'i bwrpas oedd rhoi trosolwg ar waith CSC a rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf i’r Aelodau am y cyfraniad yr oedd CSC yn ei wneud, gan weithio mewn partneriaeth â'r awdurdod lleol, i godi safonau mewn ysgolion ar draws Pen-y-bont ar Ogwr.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Chymorth i Deuluoedd a Rheolwr Gyfarwyddwr CSC a bu'r Aelodau'n trafod y canlynol:

- Y fformiwla ar gyfer y cyfraniad blynyddol oedd yn cael ei wneud i CSC, y defnyddio o gronfeydd a sut yr oedd yr awdurdod yn mesur canlyniadau pendant mewn perthynas â'r buddsoddiad refeniw.
- Digonolrwydd cefnogaeth gan CSC o ystyried y gostyngiad mewn cyllid ac arbedion effeithlonrwydd yng nghyllidebau ysgolion, effaith llai o gyllid ar bartneriaid gwella CSC o fewn Pen-y-bont ar Ogwr a thargedu blaenoriaethau awdurdodau lleol unigol i leihau effaith unrhyw newidiadau.
- Systemau i olrhain a dadansoddi perfformiad disgyblion er mwyn sicrhau bod ysgolion yn gwella, a oedd ysgolion yn ddigon tryloyw drwy hunanasesu, a data cyson arall o brofion a gynhaliwyd, yn unol â'r fframwaith asesu yr oeddent yn ei ddatblygu i gyd-fynd â'r cwricwlwm i Gymru.
- Ffynonellau cyllid cydweithredu/clystyrau ym Mhen-y-bont ar Ogwr, gan gynnwys cyllid grant a grantiau dysgu proffesiynol sy'n mynd i mewn i CSC, a roddir i ysgolion yn lwmp swm i'w ddefnyddio'n ystyrlon ar unrhyw fath o gydweithrediad.
- Themâu allan o werthusiadau canol blwyddyn a diwedd blwyddyn a gyflwynwyd gan y 9 clwstwr, yn cadarnhau system o hunan-wella a'r clwstwr yn cytuno ynghylch yr hyn yr hoffai ganolbwyntio arno, e.e. asesu a dilyniant gyda dull cyson yn unol â'r cwricwlwm ar gyfer Cymru.
- Rhesymau pam yr ystyriwyd bod 16% o glystyrau yn aneffeithiol, pryderon nad oedd pob ysgol yn cymryd rhan yng nghefnogaeth CSC a dysgu proffesiynol a rôl y Grŵp Gwella Ysgolion wrth bennu blaenoriaethau strategol mewn ysgolion penodol.
- Partneriaid Gwella sy'n gweithio gydag ysgolion i integreiddio argymhellion allan o arolygiadau Estyn i'w cynlluniau datblygu ysgolion a'r posibilrwydd y bydd Estyn yn cynyddu rheoleidd-dra eu harolygiadau.
- Nid yw Ysgol yr Archesgob McGrath bellach yn cael ei hadolygu gan Estyn ar ôl gwneud cynnydd priodol yn erbyn pob argymhelliad a wnaed yn yr arolygiad gwreiddiol.
- Rhoddodd cynrychiolwyr yr ysgolion yr adborth canlynol am yr agweddau allweddol o'u profiad o weithredu a pharhau i gyflwyno'r cwricwlwm newydd ar gyfer Cymru;
  - Y dysgwyr a llais dysgwyr wrth wraidd yr hyn y maent yn ei wneud.
  - Pwysigrwydd sefydlu'r pedwar pwrpas yng nghyfnod allweddol 5, cyn eu bod yn orfodol
  - Ymreolaeth staff i benderfynu ar y dulliau gweithredu gorau ynghyd ag addysgeg addysgu a dysgu
  - Sicrhau bod llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol yn rhan annatod o wersi
  - Rhannu ymarfer ag ysgolion eraill.
  - Gwella mewn canlyniadau meddal - meddwl, datrys problemau, sgiliau llythrennedd a rhifedd

- Cyfraddau presenoldeb yn uwch na'r flwyddyn flaenorol

a rhai heriau, yn cynnwys:

- Y Model yn gwrthdaro yn erbyn strwythurau mewn mannau eraill yn yr ysgol
- Adeiladau ysgol ddim yn addas i'r diben o ran dull arloesol

- Canlyniad astudiaeth achos Ysgol Gynradd Corneli ar ymwybyddiaeth ariannol.
- Meysydd ffocws / blaenoriaeth allweddol i ysgolion:
    - Llythrennedd
    - Gweithredu a Mireinio'r Cwricwlwm ar gyfer Cymru
    - Y fframwaith asesu y cytunwyd arno gan gyrff llywodraethu fel rhan o fabwysiadu'r cwricwlwm i Gymru
    - Datblygu prosesau hunanarfarnu effeithiol i sicrhau eu bod yn cael effaith ar addysgu a dysgu
    - Rhwydweithiau a dderbyniodd gyllid o £30,000 ychwanegol i gynllunio a hwyluso dysgu proffesiynol er mwyn cwrdd ag anghenion yr ysgolion
    - Ysgolion Cyfrwng Cymraeg ac Arbennig
- Y lefelau isaf o gefnogaeth a mesurau i sicrhau bod cefnogaeth yn cael ei rhoi a bod ysgolion a Phartneriaid Gwella yn cyfranogi'n effeithiol yn unol â'r Rhwydwaith Gwella Ysgolion.
- Gwybodaeth am y gefnogaeth a ddarperir i'r ddwy ysgol na chawsant gefnogaeth bwrpasol a'r gefnogaeth pwnc-benodol a ddarparwyd gan CSC.
- Sefydlu Tîm Cymorth Grŵp Bregus a'i rolau allweddol, gan gynnwys cynnal archwiliadau diogelu gan ddefnyddio'r Offeryn Archwilio Diogelu a gymeradwywyd gan Estyn.
- CSC yn gweithio ar arweinyddiaeth a diogelu drwy wneud y canlynol:
    - Cynyddu lefel yr hyfforddiant diogelu i staff;
    - Datblygu strwythurau llywodraethu mewnol;
    - Symleiddio'r ffordd yr oeddent yn gwneud cynlluniau busnes er mwyn rhyddhau capasiti;
    - Parhau â'r bartneriaeth waith dda rhwng Cyfarwyddiaethau Addysg a Chymorth i Deuluoedd a'r Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles, er mwyn sicrhau bod pwysau a llwyddiannau yn cael eu rhannu a gwersi a ddysgwyd;
    - Darparu gweledigaeth glir a chodi cyrhaeddiad pobl iau ddifreintiedig a sicrhau'r gefnogaeth fwyaf posibl ar gyfer prydau ysgol am ddim drwy gynllun peilot y cymerodd Coleg Cymunedol y Dderwen ran ynddo;
    - Datblygu proffiliau un dudalen, pecynnau cymorth ar gyfer addysgu a dysgu a pholisïau ysgolion cyfan; ac
    - Olrhain llythrennedd, rhifedd a chyfranogiad.
- Cyllid Grant Datblygu Disgyblion a'r effaith ar gyllid os nad oedd disgyblion cymwys yn hawlio'r prydau ysgol am ddim yr oedd ganddynt hawl iddynt.
- Diweddariad ynghylch yr 11 blaenoriaeth a'r cynnydd a wnaed gan ysgolion nad oeddent ar y trywydd iawn yn ystod cyfnod adrodd 2021-22 a diwedd y flwyddyn academaidd.

- Y cryfderau niferus y dylid llongyfarch y Gyfarwyddiaeth a'r Ysgolion arnynt a meysydd sydd angen eu datblygu ymhellach.
- Yr adborth gan awdurdodau lleol eraill ac a roddwyd ystyriaeth i ailsefydlu Cyd-bwyllgor Craffu neu beidio i ychwanegu gwerth o bosibl at gynllun busnes drafft 2023-24 CSC.

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd cwestiynau pellach i'r Gwahoddedigion, diolchodd i'r Gwahoddedigion am fod yn bresennol a dywedodd, os nad oedd eu hangen ar gyfer yr eitem nesaf, eu bod yn rhydd i adael y cyfarfod.

PENDERFYNWYD: Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaethau manwl gyda Swyddogion ac Aelodau'r Cabinet, gwnaeth y Pwyllgor yr Argymhellion a ganlyn:

1. Tynnodd y pwyllgor sylw, er ei bod yn ddefnyddiol adolygu adroddiad blynyddol 2021-2022, y byddai'r cyd-destun wedi newid rhywfaint yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Gan fod gwerth ystyriaeth y Pwyllgor yn gorwedd mewn craffu ar y sefyllfa fel yr oedd ar y pryd, argymhellwyd y dylid rhoi cyfle i'r Pwyllgor graffu ar Gynllun Busnes Drafft Consortiwm Canolbarth y De 2023-2024 cyn i benderfyniadau gael eu gwneud.

2. Cydnabu aelodau fod Consortiwm Canolbarth y De yn cyflawni agweddau ar wasanaethau gwella ysgolion: herio a chefnogi ar ran y pum awdurdod lleol, sy'n cael ei lywodraethu drwy Gyd-bwyllgor Aelodau'r Cabinet o bob Awdurdod. Yn hanesyddol, fodd bynnag, buasai Gweithgor Craffu anffurfiol ar y cyd rhwng y pum awdurdod hyn nad oedd yn bodoli mwyach yn anffodus. Felly argymhellodd y Pwyllgor y dylai'r adran Graffu archwilio'r posibilrwydd o ailsefydlu rhyw fath o Graffu ar y cyd i ystyried materion strategol cyfannol lefel uchel sy'n ymwneud â Chonsortiwm Canolbarth y De a nodi blaenoriaethau awdurdod lleol unigol.

a gofynnodd y Pwyllgor:

3. am ddadansoddiad manwl o'r cyfraniadau cyllido craidd a ddyrannwyd i'r gwahanol swyddogaethau a restrwyd ar dudalen 41 o'r adroddiad a beth oedd cyfraniad Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ar bob un.

4. Roedd cydweithrediadau dysgu proffesiynol yn cynnwys naw clwstwr ym Mhen-y-bont ar Ogwr oedd i gyd yn cyflwyno gwerthusiad canol blwyddyn a diwedd y flwyddyn. Gofynnodd yr aelodau am fanylion pa themâu oedd wedi codi o adroddiadau gwerthuso canol a diwedd blwyddyn y clystyrau hynny.

5. Ym Mhen-y-bont ar Ogwr, yn hydref 2022, archwiliwyd pedair ysgol gan Estyn a gofynnwyd i Ysgol Gynradd Corneli gynhyrchu 'Astudiaeth Achos Ymarfer Diddorol neu Arloesol' oedd ar waith yn yr ysgol oedd yn datblygu dealltwriaeth disgyblion o ymwybyddiaeth ariannol. Gofynnodd yr aelodau am i'r astudiaeth achos hon gael ei chylchredeg ymhlith y Pwyllgor.

6. Yn ystod 2021-22, darparodd Consortiwm Canolbarth y De gefnogaeth bwrpasol yn dilyn 155 o geisiadau gan ysgolion yn y rhanbarth. Roedd y rhain yn cynnwys 20 ar gyfer ysgolion Pen-y-bont ar Ogwr; roedd 18 a ddarparwyd gan Gwricwlwm Consortiwm Canolbarth y De a'r tîm Dysgu Proffesiynol yn gysylltiedig â'r cwricwlwm. Gofynnodd y pwyllgor am fanylion am yr hyn a ddarparwyd yn bwrpasol i'r ddwy ysgol arall ym Mhen-y-bont ar Ogwr nad oedd yn ymwneud â'r cwricwlwm.

7. Roedd diogelu wedi cael ei nodi fel rhan o'r blaenoriaethau strategol blaenorol yn y Gyfarwyddiaeth ac o ganlyniad cafwyd Tîm Ymgysylltu ag Addysg, a'i rôl allweddol oedd ymgymryd ag ystod o archwiliadau diogelu gydag ysgolion gan ddefnyddio'r offeryn archwilio diogelu ysgolion cymeradwy. Cynigiodd y Cyfarwyddwr Addysg a Chymorth i Deuluoedd grynodeb ysgrifenedig o'r archwiliadau diogelu a gynhaliwyd gan y Tîm Ymgysylltu ag Addysg i'w gylchredeg i aelodau.

8. Roedd y Pwyllgor yn ymwybodol mai'r adroddiad dan sylw oedd yr adroddiad blynyddol o 2021-22 ac felly gofynnodd am ymateb ysgrifenedig ar feysydd oedd wedi gwneud cynnydd penodol, ynghyd â meysydd a allai fod angen sylw yn ysgolion yr ardal sirol, ers y cyfnod adrodd. Roedd ganddynt ddiddordeb hefyd i ddeall sut yr oedd yr Awdurdod yn cymharu ag Awdurdodau Lleol eraill yn y rhanbarth a'r hyn y gellid ei ddysgu oddi wrth arfer gorau.

9. Cytunodd y Pwyllgor i ddatblygu gyda Chonsortiwm Canolbarth y De y cyfle i fonitro a derbyn diweddariadau ar amrywiol feysydd o fewn eu cylch gwaith, gan nodi'r rhai isod i ddechrau, i allu craffu'n llawn ar anghenion ac effeithiolrwydd y gwasanaeth a'r gefnogaeth i ysgolion:

   - Tegwch, dysgwyr agored i niwed a grantiau
   - Diogelu

Cymorth i Lywodraethwyr

13. FFRAMWAITH NEWYDD AR GYFER GWERTHUSO, GWELLA AC ATEBOLRWYDD I GEFNOGI'R CWRICWLWM AR GYFER CYMRU

Cyflwynodd Rheolwr y Grŵp, Cymorth i Ysgolion, yr adroddiad, a'i bwrpas oedd rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am y 'Canllaw Gwella Ysgolion: Fframwaith ar gyfer Gwerthuso, Gwella ac Atebolrwydd' (Llywodraeth Cymru, 2021) a'r goblygiadau i'r awdurdod lleol a phrosesau a systemau Rhanbarthol.

Diolchodd y Cadeirydd i Reolwr y Grŵp, Cymorth i Ysgolion, a bu'r Aelodau'n trafod y canlynol:

- Mae tystiolaeth hunanarfarnu yn cael ei defnyddio i ganolbwyntio ar welliannau ysgolion a chynnydd dysgwyr unigol, yn symud i ffwrdd oddi wrth y mesurau cul, gan ganolbwyntio ar gynnydd yn hytrach na chyrhaeddiad, sy'n golygu bod y data, yr oedd yr ysgolion yn ei ddefnyddio eu hunain yn canolbwyntio ar ba gynnydd a wnaeth y plant ers dechrau'r ysgol neu'r flwyddyn.

- Mae ysgolion yn cyhoeddi crynodeb o'u cwricwlwm ar wefan yr ysgol ynghyd â'u cynllun datblygu ysgol i rieni / darpar rieni gael ei weld. Symud i ffwrdd oddi wrth set ddata gul ac edrych ar y cwricwlwm y bydd y plant yn ei dderbyn, blaenoriaethau strategol yr ysgol yn seiliedig ar hunanarfarniad yr ysgol a sut maent yn diwallu anghenion y dysgwyr bregus hynny.
- Hyfforddiant a ddarperir ar gyfer Cyrff Llywodraethu ysgolion:
  - Hyfforddiant Sefydlu Llywodraethwyr Newydd;
  - Hyfforddiant Sefydlu Cadeirydd;
  - Hyfforddi fel rhan o'r rôl;
  - Sesiynau cwestiwn ac ateb ar y Cwricwlwm ar gyfer Cymru;
  - Rhannu profiadau o arolygiadau Estyn;
  - Cyflwyniad i'r Pecyn Cymorth Hunanwerthuso;
  - Lles.
- Gohiriwyd cefnogaeth tymor byr i Gyrff Llywodraethu ac nid oedd Partneriaid Gwella eto wedi mynychu cyfarfodydd corff llywodraethu i gefnogi'r broses honno. Byddai'n mynd ymlaen yn barhaus ac wedi cael ei ddatblygu'n llawn yn ystod y misoedd nesaf.
- Cyfrifoldeb ysgolion oedd gweithio ar sicrhau bod pob swydd wag Llywodraethwr Ysgol wedi cael ei llenwi. Awgrymwyd gan Aelodau y gallai rhestr o swyddi heb eu llenwi gael ei rhannu â Chynghorau Tref a Chymuned lleol.
- Cefnogaeth ychwanegol i ysgolion wrthi'n cael ei benderfynu; roedd y Fframwaith Gwella Ysgolion yn datgan y byddai ysgolion fel rhan o'u cynllun datblygu yn nodi o ble roeddent yn derbyn cefnogaeth, p'un a oedd hynny gan ddarparwr allanol, CSC neu gefnogaeth bwrpasol. Yna câi unrhyw gefnogaeth ychwanegol ei thrafod gyda'r Partneriaid Gwella fel rhan o'u cyfarfodydd yn nhymor yr hydref.
- Roedd y cyllid ar gyfer Cymdeithas Llywodraethwyr Pen-y-bont ar Ogwr wedi cael ei ddileu ac er na châi ei gydlynu'n uniongyrchol gan yr Awdurdod Lleol wrth symud ymlaen, gallai'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Chymorth i Deuluoedd a Swyddogion fod yn bresennol i gynrychioli'r Awdurdod a rhoi mewnbwn pe bai angen.
- Sicrhau y ceid ymatebion i bob Argymhelliad Craffu.

Dywedodd y Cadeirydd fod Aelodau'r Pwyllgor oedd yn dymuno gofyn cwestiynau i gyd wedi siarad ac felly, gan nad oedd cwestiynau pellach i'r Gwahoddedigion, diolchodd iddynt am eu presenoldeb a dweud eu bod yn rhydd i adael y cyfarfod.

PENDERFYNWYD: Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaethau manwl gyda Swyddogion ac Aelodau'r Cabinet, gwnaeth y Pwyllgor yr Argymhellion a ganlyn:

10. Gyda Hyfforddiant Llywodraethwyr Ysgolion yn cael ei ddiwygio yn unol â'r cwricwlwm newydd, gallai fod yn bosibl bod yna Lywodraethwyr nad oeddent wedi derbyn y data newydd a'r hyfforddiant sefydlu oedd yn ofynnol. Felly argymhellodd y Pwyllgor fod hyfforddiant ar gyfer Llywodraethwyr Ysgolion presennol yn cael ei gynnig ac iddo fod ar gael iddynt cyn gynted â phosibl.

11. Mynegodd yr Aelodau bryder ynghylch nifer y swyddi gwag cyfredol ar gyrff llywodraethu ysgolion yn y Fwrdeistref Sirol a'r effaith y gallai hyn ei chael ar fonitro perfformiad ysgol yn effeithiol a gyrru gwelliant ymlaen. Felly argymhellodd y Pwyllgor y dylid llunio rhestr o'r swyddi oedd yn weddill i fod ar gael i Gynghorau Tref a Chymuned lleol iddynt ei chylchredeg ymhlith eu Haelodau eu hunain ac o fewn eu cymunedau i gynyddu'r dewis o ymgeiswyr o bosibl ar gyfer swyddi'r cyrff llywodraethol.

a gofynnodd y Pwyllgor:

12. Yn dilyn trafodaeth ac ystyried safbwyntiau'r Penaethiaid a fynegwyd yn ystod y cyfarfod, ynghylch tystiolaeth hunanarfarnu a'r defnydd ohoni ar gyfer gwella ysgolion a chynnydd dysgwyr unigol, dymunai'r aelodau gael gweld y ddogfennaeth ar ddata a chynnydd dysgwyr a ddarparwyd gan Estyn.
13. Gofynnodd yr Aelodau am i'r wybodaeth a gynhyrchwyd gan ysgolion a'i chyflwyno i'w Cyrff Llywodraethu, oedd yn darparu trosolwg ar y cwricwlwm newydd a chynlluniau'r ysgol, gael ei rhannu gyda'r Pwyllgor.

Gofynnodd y Pwyllgor am fanylion pellach am gyfanswm y cyllid cydweithredu o £929,392 a ddyrannwyd i ysgolion Pen-y-bont ar Ogwr i gefnogi cyfranogi mewn gweithio cydweithredol o fewn a thu hwnt i'w hysgol a sut y gwariwyd y cyllid hwn.

14. <u>DIWEDDARIAD AR Y FLAENRAGLEN WAITH</u>

Cyflwynodd y Swyddog Craffu y Flaenraglen Waith (FWP) yn Atodiad A i'r Pwyllgor ei thrafod a'i hystyried, gan ofyn am unrhyw wybodaeth benodol a nodwyd gan y Pwyllgor i'w chynnwys yn yr eitemau ar gyfer y ddau gyfarfod nesaf, gan gynnwys y bobl y dymunent eu gwahodd i fynychu. Gofynnodd i'r Pwyllgor nodi unrhyw eitemau pellach i'w hystyried ar y Flaenraglen Waith gan gofio'r meini prawf dethol ym mharagraff 4.3 a gofynnodd i'r Pwyllgor nodi'r Daflen Weithredu Monitro Argymhellion i olrhain ymatebion i argymhellion y Pwyllgor a wnaed mewn cyfarfod blaenorol yn Atodiad B a gofynnodd i'r Pwyllgor nodi yr adroddid am y Flaenraglen Waith ar gyfer y Pwyllgor a'r Daflen Weithredu Monitro Argymhellion yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol.

Gofynnodd y Pwyllgor am i'r eitemau canlynol gael eu hystyried i'w hychwanegu at y Flaenraglen Flynyddol yn y Cyfarfod Cynllunio Craffu nesaf ar gyfer SOSC 1:

1. Cludiant o'r cartref i'r ysgol / llwybrau diogel i'r ysgol
2. Oedi mewn Cynlluniau Cyfalaf - Prydau Ysgol am Ddim Cyffredinol; edrych ar ysgolion i weld a ydynt yn barod.
3. Cyrff Llywodraethu - Cefnogi a Chyllid. Gwahoddiad i'w ymestyn i gynrychiolwyr a Chymdeithas y Llywodraethwyr.

Ni nodwyd eitemau pellach i'w hystyried ar y Flaenraglen Waith gan ystyried y meini prawf dewis ym mharagraff 4.3, a gellid ailedrych ar hyn yn y cyfarfod nesaf.

Nid oedd ceisiadau i gynnwys gwybodaeth benodol yn yr eitem ar gyfer y cyfarfod nesaf.

PENDERFYNWYD: 1. Gofynnodd y Pwyllgor hefyd am i lwybrau gael eu hystyried gan y Pwyllgor Craffu mewn cydweithrediad â'r Gyfarwyddiaeth Addysg ar sut i symud ymlaen gyda monitro cynnydd dysgwyr yn

y dyfodol. Gwnaed awgrymiadau gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i; sicrwydd ynghylch y cyfeiriad teithio, arolygiadau Estyn, ffynonellau gwybodaeth a thystiolaeth sydd eu hangen i benderfynu ynghylch cynnydd dysgwyr, gweithgareddau gwella a hunanarfarniadau.

2. Cytunodd y Pwyllgor i fonitro ar ffurf adroddiad canlyniadau ynghylch sut mae arweinyddiaeth a diogelu yn cael ei archwilio, yn benodol mewn perthynas â'r cydweithredu o fewn yr awdurdod rhwng y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Gyfarwyddiaeth Addysg a Lles, yn gweithio'n agos gyda'i gilydd, i sicrhau bod ysgolion yn derbyn cefnogaeth arbenigol yn amserol.

Bod y Pwyllgor wedi cymeradwyo'r Flaenraglen Waith yn Atodiad A, yn amodol ar gynnwys y ceisiadau uchod, yn nodi'r Daflen Weithredu Monitro Argymhellion yn Atodiad B ac yn nodi yr adroddid am y Flaenraglen Waith, y Daflen Weithredu Monitro Argymhellion ac unrhyw ddiweddariadau gan y Pwyllgor yng nghyfarfod nesaf COSC.

15. EITEMAU BRYS

Dim.

Daeth y cyfarfod i ben am 13:57